

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r holl weithgareddau a all fod yn ofynnol i gwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol mewn coedwigoedd a choetiroedd.

Gall cwmpo a phrosesu gael eu cyflawni ar ffurf dwy broses ar wahân neu eu cyflawni gyda'i gilydd gan ddefnyddio teclyn cynaeafu a phrosesu ar y cyd.

Gallai gweithgareddau gynnwys rhai neu'r cyfan o'r canlynol:

- cwmpo coed yn fecanyddol
- datgymalu coed yn fecanyddol
- torri canghennau coed yn fecanyddol
- trawstorri coed yn fecanyddol
- pentyrru pren wedi'i brosesu i'w echdynnu neu ei brosesu ymhellach

Gallech fod yn gweithio yn unol â manyleb a roddwyd sy'n diffinio'r dulliau i'w defnyddio, ond bydd disgwyl i chi benderfynu sut i gyflawni'r dulliau hyn ar y safle.

Bydd angen i chi ystyried unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar y gwaith, e.e. safleoedd dynodedig, presenoldeb strwythurau rhestredig, bywyd gwylt, rhywogaethau estron goresgynnol neu rywogaethau gwarchoddedig, ac ati.

Mae'n ofynnol i chi osgoi neu leihau difrod i, neu darfu ar, yr ardal gyfagos, gan gynnwys coed, llystyfiant arall, bywyd gwylt a chynefinoedd, neu i unrhyw strwythurau, ffensys, llwybrau, arwyddion, ffosydd/dyfrffyrdd neu ddraeniau, ac i sicrhau nad yw eich gwaith yn peri risg i ddefnyddwyr eraill y safle.

Wrth weithio gyda chyfarpar a pheiriannau, mae'n rhaid eich bod wedi'ch hyfforddi'n briodol a dylech ddal ardystiad cyfredol lle bo'r angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

Cadarnhewch:

- fod gosodiad a threfn yr ardal weithio yn amddiffyn gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

rhag risg

- gwrthrychau sy'n disgyn
- bod parthau risg yn cael eu sefydlu a bod pobl yn cael eu hatal rhag mynediad i'r parthau
- bod parthau risg wedi'u marcio, eu harwyddo a'u gwarchod yn glir, lle y bo'n ymarferol yn rhesymol
- bod dulliau cyfathrebu rhwng yr holl weithwyr yn gadarn ac yn effeithiol

Gall fod angen adnoddau ychwanegol ar safle, fel arolygwyr, i helpu rheoli unrhyw risg sy'n gysylltiedig petai rhywun o bosibl yn cael mynediad i'r safle gweithio.

Mae'r safon hon i weithredwyr peiriannau cynaeafu neu waith coed.

Cysylltiadau â NOS eraill:

LANTw79 Paratoi a gweithredu peiriant sylfaen ag atodion

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Gofynion a chyfrifoldebau craidd

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. gwirio unrhyw ofynion statudol a allai fod ar waith a all atal neu osod amodau ar y gwaith i'w gyflawni a chadarnhau bod pob caniatâd a thrwydded ofynnol wedi'i sicrhau
3. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
4. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
5. paratoi Cynllun Codi ar gyfer datgymalu coed, lle bo angen
6. cadarnhau bod pob gwasanaeth tanddaearol ac uwchben fel nwy, dŵr, carthffosiaeth, trydan a chyfathrebu wedi'u nodi cyn bod unrhyw waith yn dechrau
7. cadarnhau bod camau rheoli digonol wedi'u rhoi ar waith, bod parthau risg wedi'u nodi, a bod cynllunio a gweithdrefnau brys yn berthnasol i'r safle wedi'u sefydlu a'u cofnodi
8. cadarnhau bod llwybrau mynediad ac ymadael wedi'u sefydlu a'u marcio
9. dewis y dulliau gweithio mwyaf diogel yn unol â'r risgiau a aseswyd a gweithdrefnau sefydliadol, a chynllunio gwaith yn unol â hynny
10. cynllunio gwaith i leihau difrod andwyol a llygredd gwasgaredig
11. cadarnhau bod hyfforddiant, profiad ac ardystiad perthnasol yn eu lle i ymgymryd â'r gwaith sydd i'w gyflawni, a chydabod y cyfyngiadau ar eich cymhwysedd chi
12. defnyddio dulliau priodol i gyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr eraill ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r gwaith, neu y mae'r gwaith yn effeithio arnynt, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
13. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
14. dadlwytho'r peiriant o'r lori gludo yn ddiogel, lle bo'i angen
15. paratoi'r peiriannau gofynnol trwy wneud gwiriadau ac addasiadau cyn defnyddio, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan gynnwys pob nodwedd ddiogelwch
16. cadarnhau bod yr holl gyfarpar wedi cael ei wirio, ei brofi, lle bo'r angen a'i fod yn addas at ei ddiben, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau'r

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

gwneuthurwr

17. cynnal diogelwch a diogeledd cyfarpar, peiriannau a thanwydd ar y safle
18. cynnal bioddiogelwch yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol, canllawiau'r diwydiant a gweithdrefnau sefydliadol
19. gwneud y gwaith gofynnol yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd a gweithdrefnau sefydliadol
20. stopio ac ynysu'r peiriant ar ôl cwblhau'r gweithgaredd, gwneud unrhyw waith cynnal a chadw gofynnol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a'i adael mewn safle diogel
21. lleihau difrod i'r safle, neu darfu arno, gan gynnwys unrhyw goed sydd o hyd yn sefyll, llwybrau, ffyrdd, draeniau neu gysiau dŵr, osgoi llygredd wrth wneud y gwaith a chadarnhau bod y safle'n cael ei adael mewn cyflwr diogel a thaclus
22. gweithredu agweddau arfer gorau at gynaliadwyedd sy'n briodol i'r gwaith sy'n cael ei gyflawni
23. delio'n effeithiol â phroblemau sy'n codi o fewn cwmpas a chyfyngiadau eich cyfrifoldebau eich hun a rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
24. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

Cwmpo coed yn fecanyddol

1. nodi'r coed i'w cwmpo a gosod y peiriant mewn safle addas i gwmpo'r coed yn y cyfeiriad gofynnol, ar gyfer gweithrediadau llwyr gwmpo a theneuo, yn unol â manylebau'r cynnyrch a ddarparwyd
2. dewis dull cwmpo sy'n berthnasol i faint a chyflwr y goeden yn unol â manylebau'r cynnyrch a ddarparwyd
3. ystyried effaith clefydau, diffygion a dirywiad yn y coed sydd i'w cwmpo a chael cyngor lle nad ydych yn sicr
4. gosod a gweithredu peiriannau a chyfarpar i gwmpo coed yn fecanyddol yn unol â'r risgiau a aseswyd a manylebau'r cynhyrchion a ddarparwyd
5. ailraddnodi peiriannau lle bo'r angen, i fodloni gofynion cwmpo
6. gosod y pren yn briodol i'w echdynnu neu ar gyfer prosesu dilynol
7. bodloni manylebau a roddwyd ar gyfer uchder y bonyn, a thriniaeth y bonyn, lle bo angen

Datgymalu coed ar uchder yn fecanyddol

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

1. nodi'r coed i'w datgymalu a gosod y peiriant mewn safle gweithio diogel i gyflawni'r broses ofynnol
2. wrth weithredu peiriannau trwy ddull rheoli o bell, sefyll y tu allan i'r parth risg
3. asesu pwysau'r goeden, y gangen neu'r rhan o'r goeden cyn dechrau'r broses a gwirio ei fod o fewn terfynau'r peiriant, gan gymryd rhannau llai, lle bo hynny'n fwy diogel
4. ystyried effaith clefydau, diffygion a dirywiad yn y coed sydd i'w datgymalu a chael cyngor lle nad ydych yn sicr
5. gosod a gweithredu peiriannau yn unol â'r risgiau a aseswyd a symud a rhyddhau'r llwyth yn ddiogel yn y parth gollwng dynodedig

Prosesu coed yn fecanyddol

1. dewis y dulliau prosesu sy'n briodol i faint a chyflwr y goeden, yn unol â'r risgiau a aseswyd a manylebau'r cynhyrchion a ddarparwyd
2. ystyried effaith clefydau, diffygion a dirywiad yn y coed sydd i'w prosesu a chael cyngor lle nad ydych yn sicr
3. torri canghennau coed gan ddefnyddio dulliau priodol a diogel i sicrhau bod yr ansawdd o fewn manylebau'r cynhyrchion a ddarparwyd
4. trawstorri coed yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â manylebau'r cynhyrchion a ddarparwyd
5. gwahanu a phentyrru pren i hwyluso echdynnu neu brosesu pellach, gan gynnwys gosod tocion oddi wrth barthau pren, yn unol â gweithdrefnau gweithredu'r safle

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gofynion a chyfrifoldebau craidd

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith i'w wneud a phwysigrwydd asesiad risg sy'n benodol i safle a chamau rheoli sy'n briodol i'ch maes gwaith
3. pwysigrwydd gwirio am bresenoldeb gwasanaethau tanddaearol ac uwchben, fel nwy, dŵr, carthffosiaeth, trydan a chyfathrebu cyn bod y cwmpo, y datgymalu neu'r prosesu yn dechrau, sut gellir gwneud hyn a'r camau i'w cymryd os byddant yn cael eu darganfod
4. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
5. pryd bydd angen Cynllun Codi ar gyfer datgymalu coed a beth ddylai ei gynnwys
6. y cynllunio a'r gweithdrefnau brys sy'n berthnasol i'r safle, canllawiau'r diwydiant ar barthau risg a chliriadau diogel rhag dargludyddion trydan uwchben, a beth i'w wneud os bydd cysylltiad â llinellau pŵer
7. pwysigrwydd rheoli parthau risg, y defnydd cywir o arwyddion rhybudd a rhwystrau i hysbysu ac amddiffyn pobl eraill tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo, a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli traffig dros dro, lle bydd angen
8. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer, safonau a chanllawiau'r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy'n berthnasol i'ch maes gwaith ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
9. gofynion cyfreithiol, y diwydiant a sefydliadol am hyfforddiant, profiad ac ardystiad i wneud y gweithgareddau gwaith gofynnol a phwysigrwydd cydnabod eich cyfyngiadau a pheidio ag ymgymryd â gwaith sydd y tu hwnt i lefel eich cymhwysedd
10. pam mae'n bwysig cyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr eraill ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r gwaith, neu y mae'r gwaith yn effeithio arnynt, a'r dulliau cyfathrebu y dylid eu defnyddio
11. y peiriannau cwmpo, datgymalu a phrosesu sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith a sut i baratoi, defnyddio a gwneud gwaith cynnal a chadw'r gweithredwr yn ddiogel, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
12. y gofynion cyfreithiol am wirio a phrofi cyfarpar a pham mae'n bwysig cynnal a chadw'r holl gyfarpar i safon uchel
13. technoleg a ddefnyddir yn eich maes gwaith a sut i'w defnyddio

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

14. pwysigrwydd mesurau bioddiogelwch a sut i gymhwysu'r rhain
15. effaith bosibl y gwaith ar y safle a'r ardal gyfagos a sut gellir lleihau'r effaith hon
16. eich cyfrifoldeb chi a chyfrifoldeb y sefydliad am amddiffyn yr amgylchedd a gweithio'n gynaliadwy
17. y problemau a all godi wrth gwmpo, datgymalu a phrosesu coed yn fecanyddol, y camau i'w cymryd a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys
18. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
19. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

Cwmpo coed yn fecanyddol

1. sut i nodi a dewis rhywogaethau a meintiau coed i fodloni manylebau'r cynnyrch a ddarparwyd
2. swyddogaeth pob rheolydd gweithredu ar beiriannau cwmpo, bwm peiriant a'r teclyn cwmpo, gan gynnwys y system rheoli rhag tân
3. sut i ddefnyddio peiriannau cwmpo i gwmpo coed yn ddiogel
4. galluedd a chyfyngiadau'r peiriannau a ddefnyddir, gan gynnwys cyfyngiadau ar lethrau
5. goblygiadau tirwedd, amodau'r tir, y tymor, y tywydd a chyflwr coed i gwmpo coed yn fecanyddol
6. goblygiadau cwmpo coed dwbl, coed sydd wedi chwalu, coed pydredig, coed marw a choed eraill sydd wedi camffurfio
7. sut i ddelio â choed sydd wedi cael eu chwythu gan y gwynt ac sydd â bonion anarferol o fawr, claddedig ac anhygyrch
8. sut i wirio, cynnal a chadw a hogi'r mecanwaith cwmpo a'r gweithdrefnau i sicrhau bod y gweithredwr yn cael ei ddiogelu

Datgymalu coed ar uchder yn fecanyddol

1. swyddogaeth holl reolyddion gweithredu'r peiriannau sy'n cael eu defnyddio, gan gynnwys dull rheoli o bell, lle caiff ei ddefnyddio
2. galluedd a chyfyngiadau'r peiriannau a ddefnyddir, gan gynnwys cyfyngiadau ar lethrau
3. pwysigrwydd gwirio pwysau'r goeden, y gangen neu'r rhan o goeden yn erbyn cyfyngiadau'r peiriant, a beth ddylid ei ystyried
4. sut i weithredu'r peiriant i dorri canghennau neu dorri rhannau o goeden i ffwrdd a'u symud yn ddiogel i'r parth gollwng dynodedig

Prosesu coed yn fecanyddol

1. swyddogaeth a rheolyddion gweithredu'r peiriannau prosesu sy'n cael eu defnyddio, a sut i ddefnyddio'r rhain i brosesu coed yn ddiogel
2. galluoedd a chyfyngiadau'r peiriannau a ddefnyddir, gan gynnwys cyfyngiadau ar lethrau
3. sut i dorri canghennau oddi ar goed, gan gynnwys y rhai sydd wedi camffurfio
4. goblygiadau prosesu coed sydd wedi chwalu, coed pydredig, coed claf a choed eraill sydd wedi camffurfio
5. sut i ddelio â choed na allwch gael at eu bonion
6. y gweithdrefnau ar gyfer gosod hyd boncyffion, goddefiannau a lleiafswm diamedr y brig, yn briodol i'r cyfarpar prosesu a ddefnyddir
7. sut i wirio a hogi cyllyll torri canghennau a pham mae angen gosod proffil y cyllyll
8. sut i wirio a hogi mecanwaith trawstorri a'r gweithdrefnau i sicrhau bod y gweithredwr yn cael ei ddiogelu
9. sut i adalw gwybodaeth am gynhyrchion unigol a chronnus
10. pwysigrwydd gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y pren wedi'i brosesu'n bodloni manylebau'r cynhyrchion
11. sut i adnabod camweithio mewn cyfarpar cyn ac yn ystod gweithrediadau
12. y dulliau cywir o ddelio â sgil-gynhyrchion, yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Delio â'r canlynol:

- coed â bonion anhygyrch
- coed sydd wedi'u chwythu gan y gwynt neu goed sy'n cael eu cwmpo i'r cyfeiriad croes
- coed claf, marw neu ansefydlog.

Mae **gwahanol ddulliau o ddelio â sgil-gynhyrchion** yn cynnwys: llosgi, pentyrru, claddu, lledaenu, prosesu ymhellach a'u hailddefnyddio fel cynhyrchion eraill

Cwmpo:

- coed conwydd a llydanddail
- cwmpo a thoriadau cwmpo niferus

Gosodiadau peiriannau:

- addasiadau yn ôl y dasg
- graddnodi'r system fesur yn sylfaenol
- cael data am y safle a data cynhyrchu

Paratoi'r tir trwy greu matiau tocion i leihau difrod i'r tir ac i helpu gyda rhyddhau.

Paratoi'r safle:

- sut i baratoi ar gyfer croesi cyrsiau dŵr
- defnyddio rampiau ac ati

Defnyddio un o'r mathau canlynol o beiriannau:

- cynaeafwyr gafael
- teclynnau cwmpo
- peiriannau clystyru a chwmpo neu wellau mecanyddol
- gilotîn/teclyn gwelleifio
- llifiau crwn

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

- proseswyr gwely
- proeswyr gafael
- proseswyr bwm strôc/cilyddol
- gwellau coed
- llifiau gafael

Geirfa

Arolygwr/arwyddwr – person hyfforddedig a chymwys sy'n rheoli symudiadau peiriannau, gweithdrefnau a phobl ar safle i sicrhau bod gweithgareddau gwaith yn cael eu cyflawni'n ddiogel.

Rhaid sefydlu hierarchaeth o reoliadau rhwng yr arolygwr/arwyddwr a gweithredwyr eraill i sicrhau bod signalau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn cael eu trosglwyddo a'u deall yn glir.

Coed sydd wedi camffurfio: coed â changhennau garw, fforchog, â llawer o gyffion a/neu sydd wedi plygu

Parth gollwng – yr ardal ddynodedig y bydd gwrthrychau, fel canghennau neu rannau o goed, yn cael eu gollwng iddi wrth ddatgymalu coed ar uchder

Amodau'r tir:

- gwlyb
- sych
- rhew
- ia
- llaid
- tir chwâl

Cynhyrchion unigol a chronnus: nifer y darnau a chyfaint pob manyleb

Gallai **gwybodaeth** sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- amserlenni
- manylebau
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau'r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau'r diwydiant (e.e. FISA)

Gwiriadau ac addasiadau cyn defnyddio yn amgylchedd y gweithredwr:

- sedd
- rheolyddion llywio a symud
- system frecio
- drychau a/neu gamerâu
- gwregys
- medryddion monitro
- paneli gwybodaeth
- sgriniau Technoleg Gwybodaeth
- rhybuddion gweledol a chlywedol
- system gyfathrebu

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

Systemau amddiffyn:

- Strwythurau Amddiffynnol y Gweithredwr (OPS)
- Strwythurau Amddiffynnol rhag Rholio (ROPS)
- Strwythurau Amddiffynnol rhag Gwrthrychau sy'n Disgyn (FOPS)
- System amddiffyn rhag saeth cadwyn

Parth risg – fe'i gelwir hefyd yn Barth perygl a Pharth gwahardd. Dylid sefydlu'r parth risg cyn dechrau unrhyw waith coed. Fel arfer, bydd y parth yn cyfateb i ddwywaith

uchder y goeden sydd i'w chwmpo, er bod angen ystyried ffactorau eraill, hefyd.

System Weithio Ddiogel (SSoW) – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

Tirwedd:

- arwynebau caled
- arwynebau meddal
- arwynebau anwastad
- llethrau

Coed â bonion anhygyrch: coed sydd wedi cael eu chwythu gan y gwynt neu goed sy'n cael eu cwmpo i'r cyfeiriad croes

Cwmpo a phrosesu coed yn fecanyddol

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	30 Ebr 2024
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Ebr 2029
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANTw38; LANTw39
Galwedigaethau perthnasol	Coedyddiaeth a choedwigaeth, Gweithredwyr llif gadwyn a pheiriannau coedwig
Cyfes/Set	Gwaith coed
Geiriau Allweddol	cwmpo; coedwig; coed; cynaeafwr; pren
